



# Sefydlu Atyniad Garddwriaethol

Lluniwyd ar gyfer Tyfu Cymru

Clare Hester

[Clare@Landkser.co.uk](mailto:Clare@Landkser.co.uk)

a





Jeremy Bowen Rees

[Jeremy@Landkser.co.uk](mailto:Jeremy@Landkser.co.uk)



## Cynnwys

Cychwyn Arni.....	2
Cynllunio Busnes .....	2
Dewis eich Endid Busnes.....	3
Ystyriaethau Ariannol .....	4
Ystyriaethau Cynllunio.....	8
Ystyriaethau Iechyd a Diogelwch.....	14
Ystyriaethau Yswiriant.....	17
Ystyriaethau Marchnata.....	19
Ystyriaethau Cynaliadwyedd .....	28

Busnesau a gyfrannodd at y Daflen Ffeithiau hon		
<b>Landsker Business Solutions Ltd</b>		<b>Cyswllt: Clare Hester</b> <b>E-bost: <a href="mailto:Clare@Landkser.co.uk">Clare@Landkser.co.uk</a></b> <b>Gwefan: <a href="http://www.landsker.co.uk">www.landsker.co.uk</a></b>
<b>Addison Design &amp; Development</b>		<b>Cyswllt: Zac Addison</b> <b>E-bost: <a href="mailto:addisonarchitecture@gmail.com">addisonarchitecture@gmail.com</a></b> <b>Gwefan: <a href="http://amherthnasol.com">amherthnasol</a></b>
<b>Thomas Carroll</b>		<b>Cyswllt: Jo Watson</b> <b>E-bost: <a href="mailto:Jo.Watson@thomas-carroll.co.uk">Jo.Watson@thomas-carroll.co.uk</a></b> <b>Gwefan: <a href="http://www.thomascarroll.co.uk">www.thomascarroll.co.uk</a></b>
<b>Alium Safety</b>		<b>Cyswllt: Claire Burt</b> <b>E-bost: <a href="mailto:claire@aliumsafety.co.uk">claire@aliumsafety.co.uk</a></b> <b>Gwefan: <a href="http://www.aliumsafety.co.uk">www.aliumsafety.co.uk</a></b>

## Cychwyn Arni

Mae cychwyn menter newydd bob amser yn dechrau gyda syniad busnes ffres. Mae'n hawdd ar y pwynt hwn cyffroi am y dyfodol, ac yn aml esgeulusir dilysu'r syniad. Yn syml, mae dilysu yn golygu ymchwilio i'ch cynnig. A oes unrhyw gystadleuwyr gerllaw yn gwneud rhywbeth tebyg neu'r un peth? Sut bydd eich syniad yn cystadlu? Pwy yw eich cynulleidfa darged? A yw'n hawdd eu perswadio i brynu'ch cynhyrchion, gwasanaethau neu ymweld â'ch atyniad? A ydyn nhw'n gweld eich syniad yn un cymhellol? Dewch o hyd i ffrind beirniadol yr ydych chi'n ymddiried yn eu barn. Beth yw eu barn am eich syniad? Dechreuwch adeiladu rhwydwaith o drydydd partïon perthnasol defnyddiol (grwpiau twristiaeth, grwpiau diwydiant, cyngor lleol ac ati) a cheisiwch eu barn. A oes unrhyw un yn gwneud yr un peth mewn rhannau eraill o'r DU? Cysylltwch a dysgwch o'u cyngor. A fydd angen cyllid ychwanegol arnoch chi? A oes benthycwyr (darparwyr grantiau, banciau, rhanddeiliaid) y gallwch siarad â nhw ymlaen llaw?

Po fwyaf y gallwch chi ddysgu am eich diwydiant cyn i chi ymrwymo a chymryd camau caled, fel adnabod darpar gwsmeriaid, y gystadleuaeth, y cyllid sy'n ofynnol, y mwyaf yw'r tebygolrwydd y bydd eich busnes yn llwyddo.

Unwaith y byddwch yn hyderus bod eich syniad wedi'i ddilysu, yna gallwch ddechrau ystyried yr agweddau canlynol sy'n cael sylw yn y daflen ffeithiau hon. Os yw hyn yn newydd i chi, gallai ymddangos bod llawer i'w ddeall ond mae yna lawer o weithwyr proffesiynol arbenigol sy'n gallu'ch cefnogi chi ar hyd y ffordd.

## Cynllun Busnes

Mae Cynllun Busnes yn ddogfen hanfodol os ydych chi'n cychwyn busnes newydd neu'n datblygu gweithgaredd newydd sy'n rhedeg ochr yn ochr â masnachu cyfredol. Mae'n cynnig cwmpas ysgrifenedig, glasbrint, a chynllun gweithredu i'ch busnes ei ddilyn. O'r herwydd, mae Cynllun Busnes yn ddogfen organig y dylid ei diweddarw wrth i'ch busnes dyfu ac wrth i'ch amcanion a'ch gweledigaeth ar gyfer y dyfodol newid.

Bydd ysgrifennu eich cynllun busnes yn profi ymarferoldeb eich syniad. Yn y modd hwn, gellid dadlau bod Cynllun Busnes yn rhwyd ddiogelwch. Yn aml, mae syniad busnes yn cael ei daflu yn ystod ystyriaethau ariannol, dadansoddiad marchnata neu ddadansoddiad cystadleuwyr. Ar ôl darganfod bod syniad yn anghynladwy neu fod angen ei newid ar y cam cynllunio hwn, bydd yn arbed amser, egni ac arian. Ar yr ochr arall, bydd ysgrifennu cynllun busnes hefyd yn rhoi'r cyfle gorau i chi lwyddo, gan fod y broses yn eich galluogi i adnabod, ystyried ac felly goresgyn rhwystrau a allai godi wrth i chi lansio'ch menter newydd.

Mae Cynlluniau Busnes sydd wedi'u datblygu'n dda hefyd yn cynnwys Rhagolygon Ariannol, sydd nid yn unig yn helpu i ragweld pryd y bydd y busnes yn debygol o fod yn broffidiol, ond sydd hefyd yn aml yn angenrheidiol i sicrhau cyllid gan ddarparwyr grantiau, banciau a buddsoddwyr. Gan fod y cyrff cyllido hyn yn ymwneud â risg ariannol, mae cynllun busnes yn rhoi'r ffeithiau, y ffigurau a'r

Sefydlu Atyniad Garddwriaethol

map ffordd iddynt i wrthweithio neu leihau unrhyw elfen o'r risg ganfyddedig a'u hannog i'ch cefnogi.



Yn y pen draw, mae Cynllun Busnes wedi'i ysgrifennu'n dda yn ceisio egluro'ch syniad newydd a'i droi yn gynllun sydd wedi'i ddatblygu'n dda ac sy'n gynaliadwy yn ariannol i'r dyfodol.

## Dewis eich Endid Busnes

Mae yna wahanol fathau o endidau busnes cyfreithiol, ac mae'n hanfodol ystyried pob un. Bydd gan yr endid a ddewiswch oblygiadau ar y dreth rydych chi'n ei thalu, swm eich atebolrwydd personol, faint o waith gweinyddol sy'n ofynnol a hyd yn oed eich gallu i godi cyllid. Nid yw'n hawdd newid endid busnes ar ôl i chi ddechrau masnachu, felly, mae'n bwysig cael hyn yn iawn wrth i chi ddechrau.

### **Beth yw unig fasnachwr neu Bartneriaeth?**

Mae unig fasnachwr yn berson hunangyflogedig sef unig berchennog ei fusnes. Mae partneriaeth yn ddau neu fwy o bobl sy'n hunangyflogedig sy'n berchen ar y busnes. Mae hyn yn golygu nad oes unrhyw wahaniad cyfreithiol rhyngoch chi fel perchennog y busnes a'r busnes ei hun. O ystyried eich bod chi a'ch busnes yr un peth, gallwch gadw'r elw rydych wedi'i wneud ar ôl treth a chi sy'n bersonol gyfrifol am unrhyw golledion y mae eich busnes yn eu gwneud. Fodd bynnag, mae bod yn unig fasnachwr yn golygu eich bod chi, yn hytrach na'r busnes, yn "atebol" am unrhyw beth sy'n mynd o chwith.

### **Beth yw cwmni cyfyngedig?**

Mae cwmni cyfyngedig yn endid cyfreithiol gwahanol i berchennog y busnes y gellir ei ffurfio p'un a ydych chi'n fusnes un person neu fod gennych weithwyr. Trwy ffurfio cwmni cyfyngedig, rydych chi'n gwasanaethu'ch busnes fel ei gyfarwyddwr.

Fel cyfarwyddwr, rydych chi'n gyfrifol am y penderfyniadau cyfreithiol ac ariannol y mae eich busnes yn eu gwneud, ond mae asedau a rhwymedigaethau eich busnes yn hollol ar wahân i'ch cyllid unigol eich hun. Mae hyn yn golygu bod yr holl elw a cholledion yn eiddo i'r cwmni yn llwyr, sy'n golygu bod yn rhaid i chi weithredu ar ran y cwmni bob amser. Mae hyn hefyd yn golygu bod gennych chi atebolrwydd cyfyngedig yn bersonol, gyda'r endid busnes yn gyfrifol am unrhyw faterion atebolrwydd.

### **Beth yw menter gymdeithasol?**

Diffinnir menter gymdeithasol neu fusnes cymdeithasol fel busnes sydd ag amcanion cymdeithasol penodol sy'n cyflawni ei brif ddiben. Fel busnesau traddodiadol maent yn anelu at wneud elw ond yr hyn sy'n wahanol, yw bod yn rhaid iddynt ailfuddsoddi neu gyfrannu eu helw net, i gefnogi achosion cymdeithasol da.

Gall mentrau cymdeithasol fod ar sawl gwahanol ffurf ac nid oes diffiniad cyfreithiol ar gyfer beth yw menter gymdeithasol. Mae yna hefyd reolau cymhleth a phenodol ar gyfer pob strwythur gwahanol.

Mae enghreifftiau o strwythurau cyfreithiol menter gymdeithasol yn cynnwys:

- Cymdeithas anghorfforedig
- Ymddiriedolaeth
- Partneriaeth
- Cwmni Cyf trwy Gyfranddaliadau (CLS)
- Cwmni Cyf trwy Warrant (CLG)
- Sefydliad Corfforedig Elusennol (CIO)
- Cwmni Budd Cymunedol, wedi'i gyfyngu gan gyfranddaliadau (CIC - CLS)
- Cwmni Budd Cymunedol, wedi'i gyfyngu gan warrant (CIC - CLG)
- Partneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig
- Cymdeithas Gydweithredol (IPS gynt)
- Cymdeithas Budd Cymunedol (CBS).

Ni ddylech ruthro wrth ddewis strwythur busnes cyfreithiol menter gymdeithasol, ac rydym yn argymhell eich bod yn ceisio cyngor proffesiynol cyn gwneud unrhyw benderfyniad.

## Ystyriaethau Ariannol

Os na chaiff cyllid busnes ei reoli'n iawn, gall achosi nifer o broblemau diangen.

Er mwyn paratoi a rheoli'ch cyfrifon yn llwyddiannus fel busnes bach, y cyfan sydd ei angen yw dealltwriaeth sylfaenol o gadw cyfrifon a chyllid.

### Cadw Cyfrifon

Gall tasgau amrywiol fel delio ag anfonebau, cofnodi treuliau, monitro treuliau a thalu gweithwyr gymryd llawer o amser.

Mae'n cymryd amser i gael hyn yn iawn, ond os caiff ei wneud yn gywir bydd eich busnes mewn sefyllfa wych.

Mae yna ddewis bob amser, felly gellir cadw cyfrifon â llaw neu ddefnyddio meddalwedd cyfrifo cwmwl gan ddefnyddio meddalwedd sydd ar gael yn gyffredin fel Sage, Xero neu QuickBooks.

Os nad oes gennych yr amser i wneud y cyfan eich hun, gallwch logi rhywun i'w wneud ar eich rhan.

### Cyfrifon Blynyddol

Rhaid cyflwyno perfformiad ariannol blynyddol eich busnes i Gyllid a Thollau EM, ac os ydych chi'n gwmni cyfyngedig sydd wedi'i gofrestru yn Nhŷ'r Cwmnïau, mae angen cofnodi a chyflwyno gwybodaeth ragnodedig yn ffurfiol – mae hyn yn cynnwys gwerthiannau, costau, asedau (pethau fel stoc neu beiriannau neu offer) a'r symiau sy'n ddyledus.

Mae'r dyddiad dyledus ar gyfer cyflwyno cyfrifon yn dibynnu a ydych chi'n gweithredu fel unig fasnachwr neu gwmni cyfyngedig.

Gallwch ddewis pryd y bydd eich blwyddyn gyfrifyddu yn dod i ben, ond gan fod incwm trethadwy ar gyfer unig fasnachwyr yn cael ei gyfrifo ar sail 6 Ebrill i 5 Ebrill – ac mae angen cyfrifon i gefnogi'r



## Sefydlu Atyniad Garddwriaethol

ffurflen dreth – mae'n gwneud synnwyr i unig fasnachwyr (a phartneriaethau) gael blwyddyn gyfrifo sy'n rhedeg rhwng 1 Ebrill a 31 Mawrth.

Mae angen cwblhau'r cyfrifon perthnasol cyn 31 Ionawr canlynol, i'w defnyddio wrth lenwi'ch ffurflen dreth hunanasesiad sydd angen ei chyflwyno ar y dyddiad hwnnw.

Ar gyfer cwmnïau cyfyngedig gallwch ddewis y flwyddyn gyfrifyddu sy'n addas i chi a'ch busnes, ond mae angen i chi gwblhau a ffeilio cyfrifon bob blwyddyn gyda Thŷ'r Cwmnïau.

### Treth Incwm Hunanasesu

I gyfrifo'ch treth incwm bersonol ar eich holl incwm am y flwyddyn (6 Ebrill i 5 Ebrill), yn anffodus mae'n rhaid i chi lenwi ffurflen arall o'r enw ffurflen dreth hunanasesu.

Rhaid llenwi'r ffeil hon, ei ffeilio a thalu unrhyw dreth erbyn 31 Ionawr fan bellaf yn dilyn blwyddyn dreth flaenorol 5 Ebrill. Gellir llenwi'r ffurflen ar-lein trwy eich cyfrif treth bersonol Cyllid a Thollau EM.

### Treth Gorfforaeth

Mae pob cwmni cyfyngedig yn y DU yn talu hyn, ac ar hyn o bryd codir y brif gyfradd ar 19% ar unrhyw elw a gynhyrchir nad yw wedi'i glustnodi. Rhaid cwblhau ffurflen dreth gorfforaeth, gyda threth yn ddyledus i'w thalu i Gyllid a Thollau EM cyn pen naw mis ac un diwrnod o'r cyfnod cyfrifyddu.

### Cyfraddau Treth Incwm

Mae lwfans personol di-dreth o £12,500 (2020-21) ar gael i bawb, a threthir oddeutu'r £37,449 nesaf o incwm "cyfradd sylfaenol" uwchlaw'r lwfans personol hwn ar 20 y cant.

Mae unrhyw incwm uwchlaw hyn yn disgyn i'r band "cyfradd uwch" (£50,001 i £150,000), ac ar hyn o bryd mae'n cael ei drethu ar 40 y cant, sydd wedyn yn codi i 45 y cant ar gyfer enillion uwch na £150,000.

Mae unrhyw un sy'n ennill dros £100,000 hefyd yn dechrau colli eu lwfans personol: i bob pwrpas, os ydych chi'n ennill rhwng £100,000 a £125,000, byddwch chi'n cael eich trethu ar 60 y cant (treth ar 40 y cant ar incwm dros £100,000 hyd at £125,000 ynghyd â threth ar 40 y cant ar golli lwfans personol hyd at £12,500). Ac os ydych chi'n ennill dros £125,000 mae'r lwfans personol yn mynd yn llwyr.

Yn ogystal, allan o incwm cyflogaeth (cyflog a thâl) y daw yswiriant gwladol, sy'n daladwy ar gyfraddau a throthwyon amrywiol.

Yn achos cwmni cyfyngedig, trethir incwm difidend ar gyfraddau is ond nid oes yswiriant gwladol i'w dalu.

Y lwfans difidend di-dreth yw £2,000

Mae trethdalwyr cyfradd sylfaenol yn talu 7.5 y cant ar ddifidendau

Mae trethdalwyr cyfradd uwch yn talu 32.5 y cant ar ddifidendau

Mae trethdalwyr cyfradd ychwanegol yn talu 38.1 y cant ar ddifidendau.

### TAW



## Sefydlu Atyniad Garddwriaethol

Waeth beth yw strwythur eich busnes, rhaid i chi gofrestru ar gyfer TAW os yw eich trosiant blynyddol (gwerthiannau) yn £85,000 neu fwy – mae cofrestru yn ddewisol os yw'r trosiant yn is na hynny.

Byddwch yn codi tâl ar eich cwsmeriaid ar y gyfradd safonol o 20 y cant o TAW, sy'n golygu bod yn rhaid i chi ychwanegu 20 y cant at werthoedd eich anfoneb gwerthu ac yna cadw'r swm hwn ar wahân i'r hyn y mae eich cwsmeriaid yn ei dalu i chi.

Yna byddwch yn gallu adennill unrhyw TAW rydych wedi'i dalu ar bryniannau a threuliau sy'n gysylltiedig â busnes, a rhaid i chi dalu swm net y ddau i Gyllid a Thollau EM. Mae ffurflenni a thaliadau TAW yn ddyledus bob chwarter.

### Troi Treth yn Ddigidol

Mae Troi Treth yn Ddigidol (MTD) ar gyfer TAW yn ddeddfwriaeth newydd gan Gyllid a Thollau EM sy'n rhan o gynllun ehangach i ddigido'r holl dreth ar gyfer busnesau'r DU yn y pen draw. Bellach mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i bob busnes sydd wedi'i gofrestru ar gyfer TAW sydd â gwerthiant cymwys am TAW uwchlaw'r trothwy TAW blynyddol (£85,000 ar hyn o bryd) gadw cofnodion digidol a ffeilio ffurflenni TAW digidol trwy feddalwedd sy'n gydnaws â MTD.

Mae angen i fwyafrif y busnesau wneud hyn ar gyfer cyfnodau TAW a ddechreuodd ar 1 Ebrill 2019 neu ar ôl hynny ac mae'n ofynnol i oddeutu miliwn o fusnesau yn y DU gyflwyno eu ffurflenni TAW o dan y system newydd.

### Cynllun Talu wrth Ennill

Mae angen cyfrifo treth incwm ac yswiriant gwladol, eu tynnu o gyflogau a thaliadau gros eich staff, a'u talu i Gyllid a Thollau EM ar eu rhan.

Taliad misol yw hwn sy'n cael ei ddiwynnu o gyflogau gros eich gweithiwr, sy'n golygu nad oes unrhyw gost i'ch busnes.

Mae yswiriant gwladol (YG) yn cael ei ddiwynnu ar gyfradd o 12 y cant ar gyfer gweithwyr, er mai dim ond ar ôl cyrraedd terfyn enillion penodol y mae treth incwm ac Yswiriant Gwladol yn cychwyn.

### Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Gweithwyr

	2021/22	2021/22
	Trothwy enillion wythnosol	Cyferwerth blynyddol
Trothwy Eilaidd – nid oes unrhyw CYG ar enillion islaw'r terfyn hwn	£170	£8,840
Trothwy Sylfaenol	£184	£9,568
Terfyn Enillion Uchaf – trethir enillion uwchlaw'r Trothwy Sylfaenol ac islaw'r Terfyn Enillion Uchaf ar 12%.	£967	£50,270

**Trethir unrhyw enillion sy'n uwch na'r Terfyn Enillion Uchaf ar 2%**

## Sefydlu Atyniad Garddwriaethol

Codir yswiriant gwladol cyflogwr ar gyfradd o 13.8 y cant ar y cyflog gros, eto o fewn trothwyon penodol – ni chaiff hwn ei ddidynnu o’u cyflogau ac felly mae’n cynrychioli cost dreth go iawn, ychwanegol i’ch busnes.

Mae cyfraddau gwahanol o gyfraniadau yswiriant gwladol yn gymwys i unig fasnachwyr hunangyflogedig:

### Cyfraniadau Yswiriant Gwladol hunangyflogedig 2021-22

	Trothwy elw blynyddol	Cyfradd CYG Dosbarth 2	Cyfradd CYG Dosbarth 4
Trothwy elw bach – Nid oes unrhyw CYG ar enillion islaw'r trothwy hwn	£6,515	£3.05	0%
Terfyn Elw Is	£9,568	£3.05	9%
Terfyn Elw Uchaf	£50,270	£3.05	2%



Cyn cychwyn ar eich menter newydd, argymhellir eich bod yn ystyried ceisio cyngor pwrpasol i sicrhau eich bod yn ymwybodol o oblygiadau ariannol eich prosiect ac i roi prosesau ar waith. Bydd arbenigwyr cymwys hefyd yn gallu egluro pryd y byddwch yn debygol o fod yn broffidiol a dylent hefyd allu cynghori ar gyllid trydydd parti, os bydd angen.

## Ystyriaethau Cynllunio

### **Graddfa: Maint, Aceri a Lleoliad**

#### Maint:

Wrth sefydlu atyniad garddwriaethol newydd yn enwedig ar dir nad yw wedi'i ddatblygu o'r blaen (Tir Maes Glas), mae'n bwysig bod yn wiliadwrus ynghylch maint y gweithgaredd rydych chi'n ei geisio – gelwir hyn yn aml yn graddio. Rhaid i raddfa gychwynnol y datblygiad ystyried yr amgylchedd o'i amgylch ac osgoi achosi unrhyw fath o effaith andwyol ar yr ardal leol neu nodweddion presennol y safle. Dylid rhoi ystyriaeth arbennig hefyd i fioamrywiaeth gyfredol y safle (am wybodaeth bellach gweler “Strwythurau” isod).

#### Aceri:

Mewn rhai amgylchiadau, gall atyniad garddwriaethol newydd ar fferm/mân ddaliad presennol elwa o Hawliau Datblygu Amaethyddol a Ganiateir (PDRs). Mae PDRs yn manylu ar y datblygiadau a ganiateir heb orfod gwneud cais am ganiatâd cynllunio. Mae ffermydd yn dod o dan yr un rheoliadau cynllunio â mathau eraill o eiddo, fodd bynnag, mae ystyriaethau ychwanegol arbennig ar waith i gefnogi datblygiad adeiladau amaethyddol ar dir fferm presennol.

Os yw'r fferm bresennol yn fwy na 5 hectar (12.35 acer), gall fod yn gymwys ar gyfer PDRs. Cofiwch fod PDRs yng Nghymru yn wahanol iawn i'r rhai yn Lloegr. Sylwch hefyd, hyd yn oed gyda PDRs, mae dal angen cyflwyniad cynllunio Hysbysiad Ymlaen Llaw. Mae mwy o wybodaeth ar gael yn Nodyn Cyngor Technol 6 (TAN6) ar gyfer Cymru yma: [gov.wales/technical-advice-notes](http://gov.wales/technical-advice-notes)

#### Lleoliad:

Wrth benderfynu ar leoliad safle addas ar gyfer eich atyniad garddwriaethol arfaethedig, mae yna nifer o ystyriaethau i'w hystyried. Mae'r ystyriaethau hyn yn sail/ffactorau penderfynu i ddichonoldeb a hyfywedd lleoliad safle.

Mae safleoedd cynnig yn amrywio'n sylweddol hyd yn oed pan fyddant wedi'u lleoli ger ei gilydd. Mae nodweddion megis argaeledd golau dydd, nodweddion tirwedd o'i amgylch ac ecoleg sefydledig i gyd yn chwarae rhan bwysig yn y ffordd y mae safle'n ymddangos yn esthetig a'r ffordd y mae'n cael ei weld. Mae'r “profiad” cyffredinol sydd gan ymwelydd / cwsmer pan fydd ar y safle yn dibynnu'n fawr ar gydbwysedd cywir yr uchod.

## Sefydlu Atyniad Garddwriaethol

Pan fydd safle cynnig yn cynnwys nodweddion gwerthfawr neu hanesyddol, gall ddod o fewn “ardal ddynodedig” e.e.:

ATA – Ardal Tirwedd Arbennig

PC – Parc Cenedlaethol

SAC – Ardal Cadwraeth Arbennig

SoDDGA – Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig

AHNE – Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol

WHS – Safle Treftadaeth y Byd

Gall y rheswm pam mae ardal wedi'i dynodi'n un neu gyfuniad o'r uchod fod am nifer o resymau. Enghreifftiau o'r rhain yw, nodweddion ffisiolegol a daearegol sylweddol, fflora a ffawna gwerthfawr, cynefinoedd pwysig (coetiroedd, glaswelltiroedd, parcdiroedd), tirwedd drawiadol, pwysigrwydd ecolegol a phresenoldeb adeiladau ag arwyddocâd pensaernïol.

Rhoddir ardaloedd ddynodedig ar waith i reoli datblygiad yn gaeth gyda'r nod o gynnal cefn gwlad ag ansawdd gweledol uchel. Pe bai'ch safle arfaethedig wedi'i leoli mewn ardal fel y rhai a restrir uchod, efallai y bydd angen caniatâd cynllunio ychwanegol arnoch chi gan un o'r gwahanol gyrrff sy'n gofalu am safleoedd o'r fath fel Cyfoeth Naturiol Cymru.

## Caniatâd Busnes

### Newid Defnydd

“Dosbarthiadau defnydd” cynllunio yw'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer penderfynu sut y gall deiliaid cyfreithlon ddefnyddio eiddo penodol. Wrth sefydlu atyniad garddwriaethol newydd, mae'n debygol y bydd dosbarth defnydd presennol y safle arfaethedig yn wahanol i ddosbarth y fenter bresennol. Yn yr achos hwn mae angen cais cynllunio “Newid Defnydd” i alinio defnydd cyfreithiol y tir ar gyfer y gweithgaredd sy'n digwydd arno. Mae gwneud cais am Newid Defnydd yn gymharol syml ac, yn y rhan fwyaf o achosion, mae'n symlach na gwneud cais am strwythur newydd.

Am restr lawn o Ddosbarthiadau Defnydd gweler yma: [Caniatâd cynllunio: dosbarthiadau defnydd \(newid defnydd\) | LLYW.CYMRU](#)

## Mynediad, Arwyddion a Meysydd Parcio

### Mynediad

Ar ôl i leoliad gael ei ddewis ar gyfer yr atyniad arfaethedig mae'n gyffredin y bydd angen naill ai mynediad newydd i'r safle (mynedfeydd ac allanfeydd safle) neu fod angen gwneud gwaith gwella sylweddol i fynedfa sy'n bodoli eisoes.

Os yw'r naill neu'r llall o'r opsiynau hyn yn wir, dylid ceisio caniatâd cynllunio i sicrhau bod y cynlluniau mynediad arfaethedig yn bodloni safonau priffyrdd yr awdurdod lleol, ac nad yw gweithrediad a diogelwch y rhwydwaith priffyrdd lleol yn cael ei gyfaddawdu.

Trwy gydymffurfio â chanllawiau cynllun yr awdurdod lleol, gellir cyflawni trefniadau mynediad diogel ac addas. Mae'n debygol y bydd angen lleiniau gweledd digonol, mewn perthynas â therfyn cyflymder gorfodol y ffordd sy'n arwain at y safle.



Pe bai'r safle arfaethedig yn gofyn am fynediad ar gyfer Cerbydau Nwyddau Trwm (HGV's) mae'n bwysig darparu lle troi digonol ar y safle i ganiatáu i gerbydau adael y safle mewn gêr sy'n edrych ymlaen (efallai y bydd angen dadansoddiad llwybr ysgubol yn yr achos hwn).

Wrth greu pwynt mynediad newydd neu wella pwynt mynediad presennol, efallai y bydd angen gweithdrefnau fel trawsleoli gwrychoedd a chwympo coed. Yn yr achosion hyn, dylid darparu Datganiad Trawsleoli Gwrychoedd a Lliniaru yn ychwanegol at Adroddiad Arolwg Coed gydag ymwybyddiaeth arbennig o unrhyw Orchymyn Cadw Coed (TPOs) sy'n bodoli eisoes.

#### Maes Parcio:

Mae darparu digon o le i barcio ar y safle yn bwysig er mwyn osgoi rhwystrau'r rhwydwaith priffyrdd lleol (e.e., modurwyr sy'n defnyddio ymyl ffyrdd at ddibenion parcio).

Dylid manylu ar y mathau o orffeniadau wyneb a fwriedir (h.y. athraidd (e.e. graean, agregau) neu anathraidd (tarmac, concrit)) mewn Adroddiad Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy (SuDS) sy'n nodi'r dull a ddewiswyd ar gyfer gwaredu dŵr wyneb, gyda SuDS yn ddatrysiaid blaenoriaeth.

Am ragor o wybodaeth, gweler Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yma:

<https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/29/contents>

#### Arwyddion:

Er mwyn denu cwsmeriaid a darparu cyfeiriad, mae'n debygol y bydd angen arwyddion ar yr atyniad garddwriaethol newydd. Wrth arddangos arwyddion at ddibenion masnachol (gan gynnwys arwyddion wedi'u goleuo) rhaid ceisio caniatâd cynllunio. Ni ddylai unrhyw arwyddion arfaethedig guddio golwg modurwyr nac achosi perygl o unrhyw fath.

## **Strwythurau**

#### Twnelau Polythen

Pan fwriedir Twnel Polythen at ddefnydd masnachol, yn hytrach na defnydd domestig, dylid ceisio caniatâd cynllunio. Os yw'r twnel polythen arfaethedig yn dalach na thri metr (3m) mae angen caniatâd cynllunio at ddefnydd domestig a masnachol.

Fel y soniwyd yn flaenorol, (gweler 'Lleoliad'), mae angen ystyriaethau arbennig ar gyfer rhai ardaloedd dynodedig. Enghraifft yma yw'r bwriad i leoli twnel polythen masnachol o fewn cwrtll adeilad rhestredig neu ardal gadwraeth arall.

#### Tai gwydr

Yn debyg iawn i Dwnelau Polythen pan fydd defnydd arfaethedig y Tŷ Gwydr a fwriedir at ddibenion masnachol, dylid ceisio caniatâd cynllunio.

Er enghraifft, wrth ystyried maint y tŷ gwydr sy'n ofynnol i redeg menter Casglu eich Hun llwyddiannus, gellir tybio y bydd maint y strwythur arfaethedig yn sylweddol ac felly bydd angen caniatâd cynllunio arno.

Mae Twnelau Polythen a Thŷ Gwydr a ddefnyddir mewn mentrau masnachol yn aml yn gofyn am ychwanegu cyfleusterau ategol ar gyfer storio a phecynnu nwyddau, sydd hefyd angen eu set eu hunain o ganiatâd (gweler isod).

#### Cyfleusterau - storio, graddfa fach, cludadwy, modiwlaid, ategu at yr amgylchoedd

Er mwyn sicrhau bod yr atyniad arfaethedig yn rhedeg yn esmwyth mae'n debyg y bydd angen strwythurau ategol. Enghreifftiau o'r rhain yw:

- Cyfleusterau Pacio
- Storio (gan gynnwys storfa oer)
- Gofod Swyddfa
- Siop/Caffi
- Toiledau
- Llwybrau cerdded llyn/pwll/coedwig ac ati.

Yn aml mae'n ffafriol trosi'r strwythurau presennol ar y safle yn hytrach na gwneud cais am adeiladu un newydd (yn amodol ar ganiatâd). Fel y soniwyd eisoes, dylai'r strwythurau hyn gyd-fynd â'u hamgylchedd a gwneud eu gorau glas i gyd-fynd â'u hamgylchoedd uniongyrchol neu'r amgylchoedd o'u cwmpas. Dylid cynnwys cynllun tirlunio arfaethedig y safle terfynol mewn unrhyw ddogfennaeth gynllunio i ddangos sut mae popeth yn clymu gyda'i gilydd mewn modd clir a chryno.

P'un a yw'n trosi adeiladau presennol, yn adeiladu adeilad newydd neu'n newid defnydd, mae'n debygol iawn y bydd angen caniatâd cynllunio ar gyfer y rhestr uchod o strwythurau, gyda'r math o ganiatâd yn cael ei bennu gan y defnydd a fwriedir.

### **Gwasanaethau**

#### **(Rhyngrwyd, Trydan, Dŵr/Profi Ffynnon, Ynni Adnewyddadwy, Carthffosiaeth)**

##### Trydan

Bydd lefel y datblygiad a gynigir ar gyfer yr atyniad garddwriaethol, a lefel y seilwaith sydd ei angen, yn pennu faint o bŵer sydd ei angen i redeg yr adeilad yn ddibynadwy ac yn effeithlon.

Wrth ddatblygu mewn lleoliad anghysbell, yn aml gall fod yn fwy cost effeithiol defnyddio ffynonellau ynni adnewyddadwy nag ariannu gosod pŵer prif gyflenwad o'r ffynhonnell agosaf. Dylai'r holl waith trydanol gael ei wneud gan weithiwr proffesiynol hyfforddedig/darparwr cyfleustodau.

##### Dŵr

Fel gyda thrydan, gall sicrhau prif gyflenwad mewn lleoliad gwledig fod yn gostus. O ganlyniad, mae opsiynau poblogaidd eraill ar gael fel tyllau turio, ffynhonnau, a defnyddio tarddelli naturiol sy'n bodoli eisoes.

Wrth storio dŵr, mae'n hanfodol sicrhau bod mesurau rhagofalus ar waith i reoli bacteria legionella. Mae rheoli tymheredd a fflysiog'r system yn wythnosol yn ddulliau effeithiol o atal legionella.

Am ffi fach mae adran Gwasanaethau Bwyd, Dŵr a'r Amgylchedd Iechyd Cyhoeddus Cymru (FWE) yn cynnal profion rheolaidd ar gyflenwadau dŵr gan gynnwys dangosyddion ansawdd microbaidd safonol. Mae'r profion hyn ar gael ym Mangor, Caerfyrddin, Caerdydd ac Abertawe.

### Ffynonellau Ynni Adnewyddadwy

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae technoleg adnewyddadwy wedi datblygu'n sylweddol, gydag amrywiaeth eang o dechnolegau bellach ar gael am gost resymol.

Fel y soniwyd eisoes, mae Ffynonellau Ynni Adnewyddadwy (RES's) yn aml yn ddatrysiaid cost-effeithiol ar gyfer darparu gwasanaethau i leoliadau gwledig, ond nid dyma eu hunig fudd.

Mae RES's yn ffordd wych o leihau ôl troed carbon datblygiad ar yr un pryd â lleihau biliau cyfleustodau yn y tymor hir. Budd arall i RES's, yw y gall fod cyllid grant neu gymorthdaliadau ar gael weithiau i ariannu eu gosod yn llawn neu'n rhannol.

Gall RES's sy'n berthnasol i atyniad garddwriaethol gynnwys solar, hydro, gwynt, geothermol a biomas. Enghraifft ohonynt fyddai defnyddio solar neu wynt i bweru goleuadau o fewn strwythur ar y safle. Sylwch y dylid ceisio caniatâd cynllunio cyn gosod yr uchod.

### Cyfleusterau Toiled

Cyfreithlondeb y toiledau yw nad oes rhaid i gaffi ddarparu cyfleusterau toiled os ydyn nhw'n gwerthu bwyd a diod i'w fwyta yn yr adeilad, os oes llai na 10 sedd ar gael. Os yw'r ardal eistedd yn cynnwys 10 neu fwy o seddi, yna mae angen cyfleusterau. Mae'n werth nodi, pe bai unrhyw nifer o staff yn cael eu cyflogi ar y safle, yna mae toiledau'n orfodol. Mae graddfa symudol mewn perthynas â nifer y toiledau sy'n ofynnol yn erbyn nifer y gweithwyr.

### Carthffosiaeth

Wrth gynnig cyfleusterau toiled i gwsmeriaid, mae'n hanfodol cael system garthffosiaeth effeithlon gyda chapasiti digonol. Dull a ffefrir yn aml mewn lleoliadau gwledig yw Cyfleuster Parod i Drin Carthion. Mae'r gweithfeydd trin carthion bach hyn yn trin hylifau, yna maen nhw'n ddigon glân i'w rhyddhau yn ôl i ddyfrgwrs sy'n bodoli eisoes fel afon neu nant.

Dull cynaliadwy arall yw system gwelyau cyrs. Mae'r systemau hyn nid yn unig yn diogelu'r amgylchedd ond nid ydynt yn gofyn am lawer o waith cynnal a chadw ac ychydig o bŵer neu ddim o gwbl. Fe'i hystyrir yn aml yn opsiwn cadarn gyda chostau oes isel.

## **Diogelwch**

### Goleuadau Allanol

Er mwyn cynorthwyo diogelwch eiddo a diogelwch personol ar y safle, efallai y bydd angen math o oleuadau allanol ar gyfer y datblygiad arfaethedig. Gan amlaf, bydd yr awdurdod lleol yn gofyn am fanylion goleuo ychwanegol ar ffurf adroddiad goleuo yn nodi math, maint, amseroedd gweithredu a lleoliad y goleuadau arfaethedig.



## Sefydlu Atyniad Garddwriaethol

Mewn rhai senarios, gellir gosod amodau megis rhaid i unrhyw oleuadau allanol fod yn llai na thri metr (3m) o'r ddaear a'u gosod â hwdiau i gyfeirio'r golau o dan y plân llorweddol, ar ongl sy'n llai na saith deg gradd o fertigol. Efallai y bydd y lwcs (mesur goleuo) hefyd yn gyfyngedig a gellir rheoli'r ymlediad golau yn llym ar hyd adeiladau, coed a dyfrgyrsiau.

Weithiau gall yr awdurdod lleol ofyn i unrhyw oleuadau gydymffurfio â chanllawiau perthnasol fel Nodiadau Cyfarwyddyd Sefydliad Peirianwyr Goleuadau (ILE\*) ar gyfer Lleihau Llygredd Golau (1995). Mae'r cyfarwyddyd hwn yn nodi rheolaeth ar oleuadau allanol mewn gwahanol barthau amgylcheddol (e.e., E2: Ardal Disgleirdeb Isel (Lleoliad Gwledig neu Bentref Bach).

\*Sylwch mae ILE bellach yn cael ei gydnabod fel Sefydliad Gweithwyr Proffesiynol Goleuadau (ILP).

## Cyngor Cynllunio Arbenigol

Cyn i chi ddechrau eich atyniad garddwriaethol bach, argymhellir yn gryf eich bod yn ceisio cyngor cynllunio annibynnol, a hefyd yn gwirio'ch cynlluniau gyda'ch cyngor lleol.



Mae gan bob busnes, waeth pa mor fach, ddyletswydd dan y gyfraith i ddeall a rheoli'r risgiau y mae'r busnes yn eu creu.

Prif ddiben hyn yw sicrhau nad yw unrhyw staff, cwsmeriaid, ymwelwyr a busnesau eraill rydych chi'n delio â nhw yn agored i unrhyw beth a all effeithio ar eu hiechyd tymor byr neu dymor hir. Gall gael goblygiadau diangen i chi fel busnes yn bersonol ac yn ariannol os aiff rhywbeth o'i le ac na allwch ddangos eich bod yn deall ac wedi ceisio rheoli eich risgiau.

Os oes gan fusnes lai na 5 gweithiwr yna nid oes angen i bethau fod yn ysgrifenedig, ond mae angen i chi ddeall a rheoli'r risgiau o hyd.

Nid yw'n golygu bod angen llawer o waith papur arnoch chi, y peth pwysicaf yw eich bod chi'n ymgymryd â phroses i asesu'ch risgiau a bod gennych gynllun i ddod â nhw i lawr i lefelau mwy diogel. Gelwir hyn yn Asesiad Risg.

Rhaid i bob busnes gael mynediad at gyngor iechyd a diogelwch 'cymwys' er mwyn cynnal yr ymarfer hwn ac asesu'r hyn sydd ei angen. Nid oes rhaid i chi gyflogi person ond rhaid i chi ofyn am gyngor gan rywun sydd â'r wybodaeth a'r profiad o risgiau sy'n gysylltiedig â'ch busnes a'r hyn sydd angen ei sefydlu i gadw risgiau'n isel.

Mae'n amhosibl cwmpasu'r holl beryglon posibl heb wneud dadansoddiad o'r gweithle a'r gweithgareddau gwaith, rhaid i bob asesiad risg fod yn benodol i'r busnes, fodd bynnag, isod mae rhai o'r pethau y bydd angen i chi eu hystyried o bosibl:

### Adeiladau

- **Tân** – mae angen asesiad risg tân arnoch sy'n edrych ar bethau a all gynnau tân (ffynonellau tanio), pethau a all losgi os bydd tân yn cychwyn a hefyd llwybrau dianc i sicrhau eu bod yn ddigonol ar gyfer gwacáu mewn argyfwng.
- **Dŵr** – os ydych chi'n storio dŵr yn eich adeilad mae angen i chi fod â mesur ar waith i reoli bacteria legionella, yn enwedig os oes gennych chi gyfleusterau neu offer gwaith sy'n creu chwistrell. Gall hyn olygu cymryd tymereddau a fflysio unrhyw dapiau neu allfeydd unwaith yr wythnos.
- **Asbestos** – mae angen i chi ganfod a yw'ch adeilad yn cynnwys unrhyw ddeunyddiau sy'n cynnwys asbestos, os felly yna efallai y bydd angen eu tynnu neu eu rheoli.
- **Lloriau** – sicrhau eich bod yn tynnu neu'n dwyn sylw at unrhyw beryglon llithro/baglu
- **Cynnal a chadw statudol** – mae yna ofynion cyfreithiol ar gyfer cynnal a chadw pibelli pwyso, boeleri, systemau trydanol, drysau cau rholer ac ati.

### Risgiau Eraill

- **Cemegau/plaladdwyr** – mae hyn yn gofyn am asesiad i ddadansoddi sut y gallant effeithio ar berson wrth eu defnyddio, e.e., anadlu anweddau cemegol peryglus, gollwng sylweddau ar y croen. Efallai y bydd hyn yn gofyn am fath penodol o fasg neu fath penodol o faneg, er enghraifft. Bydd angen i chi hefyd nodi sut y mae'n rhaid storio'r rhain i atal anweddau rhag cronni neu o bosibl achosi tân os yw'n fflamadwy. Gall rhai pobl fod yn sensitif i rai mathau o

## Sefydlu Atyniad Garddwriaethol

gemegau neu gallant fod ag asthma neu broblemau anadlol eraill a allai gael eu gwaethygu os ydynt yn eu defnyddio.

- **Tanwydd peiriannau torri gwair** – bydd angen asesiad i sicrhau eich bod yn eu storio a'u defnyddio'n ddiogel fel nad ydynt yn achosi tân, neu risg i berson trwy anadlu'r anweddu.
- **Offer llaw** – efallai y bydd angen asesiad i benderfynu pa mor swnllyd ydyn nhw, a faint maen nhw'n dirgrynu. Efallai y bydd angen gwarchod y clyw neu ffyrdd o leihau faint o amser a dreulir yn eu defnyddio i leihau'r risg o golli clyw a dirgryniad bys gwyn.
- **Codi, symud a chario** – mae angen i chi ystyried pa mor drwm/lletchwith yw eitemau sy'n cael eu symud yn rheolaidd, ac a oes gan unrhyw berson anafiadau neu gyflyrau presennol y gellid eu gwaethygu. Mae angen i chi asesu a ellid defnyddio unrhyw offer yn lle'r rhain.
- **Gweithio ar uchder** – a oes gennych chi unrhyw dasgau sy'n gofyn am ddefnyddio ysgol yn rheolaidd? Mae yna ffyrdd diogel o ddefnyddio ysgol ac mae angen gwirio'r amodau hefyd. Efallai nad ysgolion bob amser yw'r ffordd orau o gyflawni rhai tasgau ar uchder felly gall dulliau eraill fod yn fwy diogel.
- **Torri gwrychoedd/tocio coed ac ati** – mae angen ystyried sut y gellir rheoli'r tasgau hyn yn ddiogel
- **Peiriannau amaethyddol** – llawer o risgiau sy'n gysylltiedig â'u defnydd ar gyfer staff ac ymwelwyr.
- **Pridd/compostio** – gall rhai mathau o facteria a micro-organebau fod yn beryglus i iechyd. Mae angen i chi ystyried golchi dwylo, gwisgo maneg, gorchuddio briwiau ac ati - ar gyfer staff ac aelodau'r cyhoedd a allai gymryd rhan yn y gweithgareddau hyn.
- **Planhigion** – gall rhai planhigion fod yn beryglus os cânt eu bwyta neu gallant achosi adweithiau alergaidd felly mae angen i chi ddeall beth sydd angen i chi ei wneud i atal hyn a beth i'w wneud mewn argyfwng pe bai hyn yn digwydd.
- **Anifeiliaid a Phryfed** – gall fod risgiau o bigiadau neu frathiadau, a hyd yn oed risgiau o dail y mae angen eu rheoli.
- **Rhodfeydd a llwybrau cyffredinol** – angen ystyried amodau'r tywydd a thymhorol a'r effaith ar lwybrau cerdded.
- **Cymorth cyntaf** – bydd angen i chi asesu faint o swyddogion cymorth cyntaf sydd eu hangen ar gyfer staff ac aelodau'r cyhoedd, a lefel yr hyfforddiant cymorth cyntaf sydd ei angen arnoch ar gyfer y busnes.
- **Risgiau eraill yn dibynnu ar y busnes:**
  - Os oes gennych chi unrhyw fath o ryngweithio ag anifeiliaid, yna mae safonau y mae'n rhaid cadw atynt er mwyn rheoli afiechydon y gellir eu trosglwyddo o anifeiliaid i fodau dynol (milheintiau) yn ogystal â brathiadau gan anifeiliaid.
  - Os oes gennych unrhyw fath o faes chwarae yna mae angen cadw at safonau ar gyfer archwiliadau a chynnal a chadw.

## Gwybodaeth y mae'n rhaid i chi ei darparu:

- **Ar gyfer ymwelwyr** – ar y gweithgareddau y gallent fod yn eu gwneud a'r pethau yr ydych yn gofyn iddynt eu gwneud i fod yn ddiogel.
- **Ar gyfer staff** – hyfforddiant a gwybodaeth yn y risgiau rydych chi wedi'u hadnabod a'r pethau y mae angen iddynt gadw atynt er mwyn eu cadw'n ddiogel.

## Cymorth Iechyd a Diogelwch Arbenigol





## Sefydlu Atyniad Garddwriaethol

Os ydych chi'n ansicr o'ch gofynion lechyd a Diogelwch, argymhellir eich bod chi'n ystyried **siarad ag arbenigwyr cymwys a fydd yn gallu rhoi cyngor pwrpasol i chi.**



Mae pob busnes yn unigryw a bydd ganddo anghenion yswiriant gwahanol. Yr hyn sy'n gyffredin i bob un yw'r angen am Yswiriant. Mae'n bwysig iawn sicrhau bod sicrwydd am y risgiau y mae'ch busnes yn eu hwynebu.

Bydd polisi yswiriant busnes da yn rhoi sicrwydd i'ch busnes rhag ofn i unrhyw beth fynd o'i le gan gynnwys unrhyw daliadau iawndal a chostau cyfreithiol sy'n ofynnol. Isod mae rhestr o'r mathau o yswiriant yr ydym yn argymhell eich bod yn eu hystyried.

Atebolrwydd Cyhoeddus / Atebolrwydd Perchnogion Eiddo	<p>Mae yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus wedi'i gynllunio i dalu costau hawliadau a wneir gan aelodau'r cyhoedd (cwsmeriaid / cyflenwyr ac ati) ar gyfer digwyddiadau sy'n digwydd mewn cysylltiad â'ch gweithgareddau busnes.</p> <p>Mae'n cynnwys eich atebolrwydd cyfreithiol i drydydd partion am golled ddamweiniol neu ddifrod i eiddo, neu farwolaeth, afiechyd, salwch neu anaf o ganlyniad i'r gweithgareddau busnes.</p>
Atebolrwydd Cynhyrchion	<p>Mae yswiriant Atebolrwydd Cynhyrchion wedi'i gynllunio i dalu costau digolledu rhywun sy'n cael ei anafu gan gynnyrch diffygiol y mae eich busnes yn ei ddylunio, ei gynhyrchu neu'i gyflenwi.</p> <p>Mae'n cynnwys eich atebolrwydd cyfreithiol i drydydd partion am golled ddamweiniol/difrod i eiddo, neu farwolaeth, afiechyd, salwch neu anaf o ganlyniad i werthu neu gyflenwi nwyddau neu gynnyrch.</p>
Atebolrwydd Cyflogwr	<p>Mae Atebolrwydd Cyflogwr wedi'i gynllunio i dalu cost digolledu eich gweithwyr sydd wedi'u hanafu yn eu gwaith neu'n mynd yn sâl trwy eu gwaith. Mae'r term 'gweithiwr' yn cynnwys unrhyw un sy'n gwneud gwaith i chi waeth a yw'n derbyn taliad, felly mae hyn hefyd yn cynnwys staff dros dro, gwirfoddolwyr ac ati.</p> <p>Mae'n cynnwys eich atebolrwydd cyfreithiol (i weithwyr) am farwolaeth, afiechyd neu anaf sy'n deillio o'u cyflogaeth yn y busnes ac mae'n rhwymedigaeth gyfreithiol i gael yswiriant ar waith.</p>
Niwed Sylweddol	<p>Cynlluniwyd sicrwydd Niwed Sylweddol i amddiffyn eich asedau ffisegol, megis adeiladau, cynnwys, offer ac ati, rhag colled neu ddifrod ffisegol sy'n deillio o ddigwyddiadau sydyn ac annisgwyl fel tân, storm, llifogydd, lladrad.</p> <p>Fe'i cynlluniwyd i bob pwrpas i'ch rhoi yn ôl yn yr un sefyllfa ag yr oeddech cyn i'r digwyddiad yswiriedig ddigwydd.</p> <p>Gall difrod sylweddol gwmpasu'ch holl adeiladau (sy'n berchen i chi neu yr ydych yn eu rhentu), cynnwys busnes, offer cyfrifiadurol, gosodiadau a ffitiadau, stoc ac ati.</p>

Ymyriad Busnes	<p>Mae Yswiriant Ymyriad Busnes wedi'i gynllunio i roi sicrwydd i chi os byddwch yn colli incwm yn ystod cyfnodau lle na allwch gynnal busnes fel arfer oherwydd digwyddiad annisgwyl, a'i nod yw rhoi eich busnes yn ôl yn yr un sefyllfa fasnachu ag yr oedd cyn i'r digwyddiad ddigwydd.</p> <p>Os bydd hawliad yn digwydd, efallai y bydd gennych gostau parhaus i'w talu o hyd, megis rhent, ardrethi, benthyciadau, cyflogau gweithwyr ac ati, a bydd y polisi hwn yn eich talu am eich holl gostau parhaus nes eich bod yn ôl yn yr un sefyllfa â phe na ddigwyddodd yr hawliad erioed.</p>
Treuliau Cyfreithiol Masnachol	<p>Mae'r yswiriant Treuliau Cyfreithiol wedi'i gynllunio i'ch helpu chi i gael cyngor cyfreithiol mor gynnar â phosib, cyn i broblem godi fel tribiwnlys cyflogaeth neu anghydfod contract masnachol, trwy linell gymorth cyngor cyfreithiol a rheoli risg yswirwyr.</p> <p>Mae'n rhoi amddiffyniad a chymorth cyfreithiol i chi, wrth fynd ar drywydd ac amddiffyn gweithredoedd, a ddygir gennych neu yn eich erbyn yn ystod eich gweithgareddau busnes (gan gynnwys ymchwiliadau treth ac anghydfodau cyflogaeth).</p>

### Cymorth Cyfreithiol Arbenigol

Os ydych chi'n ansicr o'ch gofynion lechyd a Diogelwch, argymhellir eich bod chi'n ystyried siarad â chynghorydd cyfreithiol a fydd yn gallu rhoi cyngor pwrpasol i chi.

## Ystyriaethau Marchnata

### Gosod eich Strategaeth

Rhaid i'r Strategaeth Farchnata gael ei fframio o fewn nodau ac amcanion y busnes. Felly, mae'n bwysig eich bod wedi diffinio beth yw eich Gweledigaeth, Cenhadaeth, Diben a Gwerthoedd, ac adnabod eich cynulleidfa darged, cyn cychwyn ar eich Marchnata.

### Gweledigaeth

Mae eich gweledigaeth yn portreadu nodau tymor canolig i hir eich prosiect newydd. Yn darged cyraeddadwy yn seiliedig ar nodau a dyheadau, mae'n cynnig map ffordd ar gyfer busnes, gan nodi'ch dyhead trwy osod cyfeiriad diffiniedig ar gyfer twf. Felly, mae'n atgoffa rhywun ac yn helpu penderfyniadau ynghylch pa gamau yw'r rhai gorau i'w cymryd i symud y busnes yn ei flaen. Felly, mae'n atal gwriad neu dynnu sylw gyda gweithgareddau nad ydynt yn rhai craidd ac yn atal y busnes (a'ch marchnata) rhag mynd i'r cyfeiriad anghywir.

### Cenhadaeth

Mae datganiad cenhadaeth yn disgrifio busnes eich prosiect neu gwmni o ddydd i ddydd. Fel 'datganiad lifft', mae'n gwneud hyn mewn ffordd sy'n golygu y gall unrhyw wrandawr ei ddeall o ddarllyn ychydig frawddegau. Pan fydd wedi'i ysgrifennu, ei ymarfer a'i ddysgu, mae'n galluogi pob aelod o staff i ddod yn hysbysfwrdd siarad ar gyfer y busnes.

Mae datganiad cenhadaeth effeithiol hefyd yn helpu pob gweithiwr i wneud penderfyniadau ynghylch beth i'w wneud a sut i'w wneud, yn ogystal â beth i beidio â'i wneud. O'r herwydd, mae'n cynnig fframwaith clir (a ffiniau) ar gyfer yr hyn y mae angen i'ch marchnata ei hysbysebu. Dylai cenhadaeth fod yn gofiadwy ac yn gryno ac yn disgrifio "hanfod" yr hyn y bydd eich busnes garddwriaethol newydd yn ei wneud yn ddyddiol.

### Diben

Mae eich datganiad diben yn esbonio pam rydych chi'n gwneud yr hyn rydych chi'n ei wneud, pam mae'ch cwmni'n bodoli, a beth yw eich diben uwch (eich achos). Mae'n ysbrydoledig a phan gaiff ei ddefnyddio'n allanol, mae'n egluro i'ch cwsmeriaid pam mae'ch sefydliad yn bwysig, a pham mae eich achos yn ystyrlon. Bydd eich cwsmeriaid yn cysylltu'n ddyfnach â'ch achos na'ch datganiad cenhadaeth ac felly fe'i defnyddir yn aml fel canllaw marchnata creadigol, ac wrth adrodd 'eich stori'.

### Cwsmer Targed

Mae deall pwy yw eich cwsmer targed (delfrydol) yn hanfodol ar gyfer eich marchnata. Pwy fydd eisiau ymweld â'ch atyniad? Pwy fydd eisiau prynu'ch cynhyrchion? A ydyn nhw'n fusnesau, defnyddwyr, neu'r ddau?

Pwy yw'r "ffrwythau crog isel" - pwy yw'r bobl y bydd yn haws eu troi'n gwsmeriaid? Pan allwch chi adnabod y grŵp hwn, ceisiwch eu disgrifio.

## Sefydlu Atyniad Garddwriaethol

Faint ohonyn nhw sydd? Beth maen nhw'n ei wneud? Beth yw eu rhyw? Faint yw eu hoedran? Beth yw eu hincwm? Beth yw eu cyfnod bywyd? Beth maen nhw'n credu ynddo? Ble maen nhw'n byw? Beth arall maen nhw'n ei brynu? Beth yw eu diddordebau? Beth yw eu gwerthoedd? Beth yw eu blaenoriaethau gwariant? Sut maen nhw'n siopa? Pa gyfryngau maen nhw'n eu defnyddio? A ydyn nhw'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol? Ble allwch chi ddod o hyd iddyn nhw/eu cyrraedd? Pa lefydd maen nhw'n ymweld â nhw? Pa un yw'r ffordd orau o siarad â nhw?

Bydd yr holl wybodaeth hon yn penderfynu sut rydych chi'n cyrraedd eich cynulleidfa darged, yn y lleoedd maen nhw'n fwyaf tebyg o'u mynychu (trwy leoliadau, cyfryngau cymdeithasol, papurau newydd ac ati), yn y ffordd maen nhw'n hoffi ymgysylltu â brandiau, cynhyrchion ac atyniadau.

## Eich Gwerthoedd Brand

Eich gwerthoedd yw hanfod eich hunaniaeth farchnata. Gwerthoedd yw'ch egwyddorion a'ch credoau. Rhaid iddyn nhw fod yn ddilys ac ni ddylid eu cyfaddawdu er hwylustod neu fudd tymor byr. Ar ôl eu sefydlu, byddant yn eich helpu i wneud penderfyniadau strategol ynghylch eich marchnata (ac agweddau eraill o'ch busnes).

Dylai eich gwerthoedd hysbysu'ch cwsmeriaid o'r hyn sy'n bwysig i'ch busnes (yn uniongyrchol e.e., manylion ar wefan/tudalen Facebook ac yn anuniongyrchol e.e., y pethau eraill rydych chi'n siarad amdanynt neu'n eu rhannu ar y cyfryngau cymdeithasol, eich pecynnu, yn gynhenid trwy'ch logo ac ati.) Gallant ymwneud â thuaddiadau cyfredol e.e. cynaliadwyedd, neu blanhigion brodorol o ffynonellau lleol ond rhaid iddynt fod yn ddilys i'ch busnes ac i'ch credoau.

Pwynt o wahaniaeth, mae'r gwerthoedd hyn yn caniatáu i gwsmeriaid greu cysylltiadau dyfnach â'ch brand, ac felly rhesymau cryfach i ymweld â chi a'ch argymell wrth eraill.

Felly, rhaid i'ch cwsmeriaid fod yn ystyriaeth yn eich gwerthoedd. Rhaid iddyn nhw fod yn ddilys i chi, ond hefyd yn ysbrydoledig iddyn nhw.

## Eich Stori

Rhaid i stori'ch brand adrodd y gyfres o ddigwyddiadau a fu'n ysbrydoliaeth i sefydlu eich gweithgaredd garddwriaethol a sut mae hynny'n cysylltu â'ch cenhadaeth a'ch dibenion heddiw.

Yn yr un modd â'ch hoff gymeriadau llyfr a ffilm, os gallwch chi adeiladu stori gymhellol, bydd eich cynulleidfa'n cofio pwy ydych chi, yn datblygu empathi tuag atoch chi, ac, yn y pen draw, yn poeni llawer mwy amdanoch chi a'ch atyniad; gall hyn annog arfer drachefn neu eich argymell. Gellir defnyddio'r stori hon ar wefan, ar y cyfryngau cymdeithasol ac mewn taflenni neu wybodaeth ar y wefan.

## Adeiladu'ch Brand

Yn aml, pan fydd pobl yn siarad am frand, maen nhw'n cyfeirio at y logo ffisegol, ond mae brand gryn dipyn yn fwy na hynny. Y profiad emosiynol, sy'n cael ei gryfhau neu ei wanhau trwy bob rhyngweithio â busnes. Yn hynny o beth, eich brand yw'r hyn y mae pobl eraill yn ei feddwl, ei deimlo a'i ddweud am eich busnes.

Er mwyn adeiladu brand cryf, rhaid i chi ddarparu profiad emosiynol cadarnhaol a chyson i'ch cwsmeriaid a'ch darpar gwsmeriaid. Po fwyaf y gwnewch hyn, y mwyaf o bobl fydd yn dechrau dibynnu arnoch chi ac, yn bwysicaf oll, yn ymddiried ynoch chi. Teimlo'n hyderus y cânt brofiad pleserus yw'r rheswm pam mae cwsmeriaid yn dychwelyd at eu hoff frandiau



Dylai eich logo gael ei yrru gan eich gwerthoedd a'ch cynulleidfa darged, gan fod yn rhaid ystyried y ddau wrth ei ddylunio. Sicrhewch fod eich logo yn dynodi gwerthoedd eich busnes ac yn cynnwys enw'ch busnes. Meddyliwch am eich logo (ac unrhyw becynnu) fel hysbysebion ychwanegol a'u gwaith yw egluro ac arddangos eich cynnyrch. Pa fath o stori weledol y mae'n ei hadrodd am eich busnes?

Mae angen i'ch logo fod yn gofiadwy ac yn hawdd ei atgynhyrchu, felly mae siapiau ac eiconau syml yn well. Mae angen ei adnabod yn hawdd hefyd os yw wedi'i argraffu mewn du a gwyn ac, yn olaf, mae angen ei ddefnyddio mewn gwahanol leoedd – a fydd yn gweithio ar y wefan, penawdau llythyrau, anfonebau, labeli, poster, Facebook, Instagram, arwyddion ar y safle a mwy? Rhaid iddo hefyd fod yn wahanol i fusnesau lleol eraill. A fydd eich busnes yn sefyll allan?

### Adnodd Marchnata

Mae marchnata yn gofyn am gydbwysedd gofalus o bobl, amser a chyllideb. Gall marchnata fod yn gost-ffeithiol iawn, ond bydd hefyd yn cymryd amser eich staff. Felly, mae'n bwysig ystyried hyn cyn cychwyn ar sawl dull marchnata na ellir ei gynnal.

### Gyrru Ymwybyddiaeth

Mae marchnata dim ond mor effeithiol â'i dargedu, felly cymerwch amser i ddeall y ffyrdd gorau o gyrraedd eich cynulleidfa darged. Mae'n debyg y bydd hyn yn gyfuniad o farchnata ar-lein (digidol) a marchnata ffisegol (taflenni, post uniongyrchol, hysbysebu lleol, arwyddion) ac ati.

*Isod mae rhai enghreifftiau, nid yw'r rhain yn gynhwysfawr ac maent yn generig o ran y gynulleidfa.*

**Arwyddion** – Yn anad dim, mae angen arwyddion arnoch y mae'n rhaid i'w dyluniad a'u neges fod yn glir ac yn daclus iawn. Ystyriwch arwyddion ar wahân (neu lwybr o arwyddion) a sicrhewch fod eich arwyddion yn gallu cael eu gweld a'u darllen (mewn eiliadau) o bellter, ac mewn tywydd gwael. Sicrhewch fod eich arwyddion 'ar frand'.

**Y wasg** – Rhowch wybod i'r papurau newydd a'r cylchgronau lleol am eich menter newydd.

**Cymdeithasau Twristiaeth** – Os yw'n briodol, rhowch wybod i'ch Cymdeithasau Twristiaeth lleol. Efallai y gallant eich hyrwyddo trwy eu mecanweithiau marchnata eu hunain.

**Taflenni a Chardiau Busnes** – Ystyriwch ddatblygu taflenni a chardiau busnes a gofynnwch am ganiatâd i'w gadael (neu'u pinio) mewn lleoliadau y mae'ch cynulleidfa darged yn eu mynychu.

**Cyfyngau Cymdeithasol** – Mae'n debygol yn 2021 a thu hwnt, y bydd cyfyngau cymdeithasol yn rhan o'ch strategaeth farchnata. Byddwch yn ofalus i beidio â gor-ymestyn y gwaith dan sylw. Mae'n well defnyddio dau rwydwaith cyfyngau cymdeithasol yn dda, na 3 neu 4 yn wael. Ystyriwch eich cynulleidfa darged – pa rwydweithiau y byddan nhw'n eu defnyddio? Postiwch yn aml, byddwch yn gyfeillgar, dilynwch fusnesau sydd â chynulleidfa darged debyg i'ch un chi. Byddwch yn ddilys a byddwch yn gymdeithasol; peidiwch â gwerthu yn unig.

**Defnyddiwch Gysylltiadau Dylanwadol** – A oes pobl neu sefydliadau lleol dylanwadol a fydd yn gallu eich helpu i ledaenu ymwybyddiaeth ymhlith eich cynulleidfa darged? Efallai cylchlythyrau cynghorwyr lleol, llyfrgelloedd, newyddion y plwyf, meddygfeydd, ysgolion, campfeydd ac ati.

**Gwefan** – Os yw'r gyllideb yn caniatáu, a'i bod yn berthnasol i'r busnes, ystyriwch wefan syml sydd wedi'i dylunio'n broffesiynol



Sefydlu Atyniad Garddwriaethol

**Cylchlythyrau a Chynlluniau Teyrngarwch** – Mae Cylchlythyrau a Chynlluniau Teyrngarwch yn ffordd wych o gadw mewn cysylltiad â'ch cwsmeriaid. Sicrhewch fod eich marchnata yn cydymffurfio â Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR: h.y., diogelu data yn ymwneud â storio a rhannu gwybodaeth bersonol), bod eich cwsmeriaid yn gwybod am beth maen nhw'n cofrestru a bod ganddyn nhw ffordd hawdd i optio allan. Yn olaf, peidiwch â gor-addo ar amllder cylchlythyr, gan fod angen i chi anfon eich cylchlythyr pan fydd eich cwsmeriaid yn ei ddisgwyl.

**Marchnata Busnes i Fusnes** – Yn olaf, os ydych chi'n ystyried busnesau eraill fel eich cynulleidfa darged, lluniwch strategaeth i'w cyrraedd. Mae'n debygol y bydd angen i'ch marchnata dorri trwy eraill, felly meddyliwch am y ffyrdd gorau o wneud hyn. Efallai y bydd llythyrau, pamffledi a hyd yn oed cynhyrchion a anfonir yn uniongyrchol at unigolyn a enwir yn cael effaith well nag e-bost. Dilynwch gyda galwad ffôn bob amser ar adeg rydych chi'n meddwl y bydd eich targed yn llai prysur a gofynnwch am gyfarfod dilynol.

### Cymorth Marchnata Arbenigol

Os nad oes gennych adnoddau marchnata yn fewnol, gallai fod yn werthfawr ystyried naill ai rhoi eich gofynion marchnata ar gontract allanol neu gael cyngor gan arbenigwyr a fydd yn gallu helpu i ddylunio strategaeth farchnata bwrpasol, ymarferol ac effeithiol i chi.



Wrth i unrhyw fusnes dyfu, rhaid ystyried yr angen i gyflogi staff. Bydd gan hyn nid yn unig oblygiadau mawr yn ariannol ac ar adnoddau amser, ond mae yna hefyd ganllawiau cyfreithiol, ymarferol ac arfer gorau y mae'n rhaid eu rhoi ar waith a chadw atynt, i reoli'r berthynas â gweithwyr.

### Cysylltiadau Gweithwyr

Mae **Cysylltiadau Gweithwyr** yn sicrhau bod y berthynas rhwng sefydliad a'i bobl yn cael ei reoli trwy arferion tryloyw a chyfraith berthnasol. Mae **cyfraith cyflogaeth** yn bwnc enfawr a chymhleth, gyda deddfwriaeth yn newid yn gyson. Mae'n bwysig bod gan gyflogwyr wybodaeth a dealltwriaeth ymarferol a chyfoes o feysydd cyfraith 'rhaid gwybod nawr', sy'n cael eu defnyddio yn y gwaith.

Mae cyfraith cyflogaeth yn dod o fewn categori **Cyfraith Sifil**, sy'n ymwneud â hawliau a rhwymedigaethau preifat unigol. Mae hyn yn darparu ar gyfer gwneud iawn pan fydd yr hawliau hynny'n cael eu torri. Mae hefyd yn galluogi inni reoli'r berthynas gyflogaeth yn effeithiol ac yn dylanwadu ar sut mae'r berthynas hon yn datblygu ac yn cael ei rheoli.

Mae yna hefyd **Codau Ymarfer Statudol** nad ydyn nhw'n gyfraith eu hunain, ond canllawiau ar gyfer meysydd allweddol o arfer cyflogaeth, er enghraifft, Cod Arfer Acas (Gwasanaeth Cyngori, Cymodi a Chyflafareddu) ar Weithdrefnau Disgyblu a Chwyno. Mae'r codau hyn yn cael eu cymeradwyo gan y Senedd a chyfeirir atynt gan Dribiwnlysoedd Cyflogaeth.

### Recriwtio a Dewis

Mae denu a dewis unigolion i'r rolau cywir yn broses sylfaenol i bob sefydliad. Gall Recriwtio a Dewis fod yn un o'r prosesau drutaf y mae unrhyw fusnes, waeth pa mor fawr neu fach, yn mynd drwyddo, a gellir rheoli hyn yn fewnol neu'n allanol. Mae angen i'r broses fod yn gost-effeithiol ac yn cydymffurfio â'r gyfraith. Gall fod yn beryglus, gan nad oes unrhyw warantau o sut y bydd unrhyw unigolyn yn perfformio mewn menter newydd neu'n rhyngweithio â thîm sydd eisoes yn bodoli.

Rhaid i gyflogwr ystyried y math o rôl y mae angen ei llenwi, os yw hon yn un swydd neu sawl un, ac a fydd y recriwt newydd yn cyflawni rolau na all y cyflogwr eu gwneud neu nad oes ganddo amser i'w gwneud. Bydd deall eich anghenion recriwtio hefyd yn caniatáu ichi archwilio'r ariannu menter cyflogaeth sydd ar gael a allai weddu i'ch gofynion busnes.

1. Mae Acas a GOV.UK. yn darparu adnoddau gwerthfawr i gyflogwyr, ar ystod eang o faterion cyflogaeth.
2. Mae Acas hefyd yn darparu Rhestr Wirio Recriwtio ddefnyddiol sydd am ddim i'w lawrlwytho a bydd yn eich helpu i gynllunio a pharatoi eich ymgyrch recriwtio: <https://www.acas.org.uk/recruitment-checklist>.

### Cam 1: Cynllun – pa gamau y byddwch chi'n eu cymryd?

- Aseswch yr angen i recriwtio. A oes angen mwy o staff arnoch chi, sgiliau newydd, dyletswyddau penodol?



## Sefydlu Atyniad Garddwriaethol

- A ydych chi'n chwilio am berson profiadol neu a ydych chi'n barod i fuddsoddi yn y tymor hwy gyda'ch amser, yn fewnol ac yn allanol o'r busnes, i greu cyfleoedd iddynt ymrwymo i hyfforddiant allanol a chael mynediad ato?
- Diffiniwch y rôl. Ystyriwch yn ofalus pa rolau a allai eich helpu i ryddhau eich amser eich hun, fel y gallwch chi ganolbwyntio ar eich busnes go iawn.
- Beth fyddwch chi'n ei wneud nesaf, pryd fyddwch chi'n ei wneud, gyda phwy?

## Cam 2: Paratoi

- Uwchlwythwch restr wirio recriwtio (Acas, fel uchod)
- Ysgrifennwch Ddisgrifiad Swydd. Mae hyn yn disgrifio'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau sy'n rhan o rôl y swydd.
- Ysgrifennwch Fanyleb y Person. Mae hwn yn amlinellu cymwysterau, profiad, sgiliau a phriodoleddau personol dymunol neu hanfodol.
- Ystyriwch Gydraddoldeb ac Amrywiaeth i gael mynediad at, recriwtio a datblygu talent eang.
- Ystyriwch unrhyw fentrau cyflogaeth cyfredol fel Cynllun Kickstart; Twf Swyddi Cymru; Cynllun Prentisiaeth; Hyfforddeiaethau; Rhaglen ReAct ac ati.
- Mae hefyd yn werth cysylltu â'ch coleg lleol i'w hysbysu o'r cyfleoedd recriwtio yn eich busnes, i ymuno â rhwydweithiau cyflogwyr/cynlluniau sydd ar gael ac i gael eu cyflwyno i raddedigion mewn sectorau perthnasol.

## Cam 3: Hysbysebu

- Ystyriwch ble rydych chi'n mynd i osod eich hysbyseb swydd. Gall hyn gynnwys y wasg leol, gwefannau ar-lein, hysbysebion lleol/fffenestri siopau, negeseuon cyfryngau cymdeithasol, asiantaethau recriwtio ac ati.
- Wrth feddwl am ddylunio, ystyriwch sut y bydd eich hysbyseb yn denu sylw.
- Defnyddiwch elfennau o'r Disgrifiad Swydd a Manyleb y Person i helpu i greu eich hysbyseb.
- Cyfeiriwch at gynllun cymhelliant cyflogaeth neu deyrngarwch os ydyn nhw'n berthnasol i'r swydd.

## Cam 4: Rheoli'ch ceisiadau

- Lluniwch restr fer o'ch ymgeiswyr. A oes gennych chi ddigon? A oes angen i chi hysbysebu am fwy o amser?
- Meddyliwch am eich Cyfweliad
  - A fydd angen i'r ymgeisydd gwblhau prawf ymarferol? Os felly, ar ba ffurf?
- Dewiswch y person iawn:
  - Hidlwch drwy'ch ceisiadau wrth gyfeirio at eich Disgrifiad Swydd a'ch Manyleb y Person.
  - Sgoriwch bob cais rhwng 1 a 10 ar gyfer y cais, cyfweliad, prawf ymarferol. Bydd hyn yn helpu i adnabod pwy berfformiodd orau.
  - Osgowch benderfyniadau cyflym. A ddylid cael ail gyfweliad?

## Cam 5: Manylion Terfynol

- Ar ôl i chi ddenu ymgeiswyr i'ch sefydliad, mae'r camau olaf yn cynnwys **cynnig cyflogaeth**.
- Ar y cam hwn, mae'n bwysig cynnal **gwiriadau cyn cyflogi fel derbyn tystlythyrau**. Mae rhai yn ofynnol yn ôl y gyfraith, megis gwirio **hawl gyfreithiol i weithio yn y DU**, tra bod angen eraill oherwydd natur y swydd e.e.,
  - **DBS (h.y., Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd)** – gwirio a yw'r gweithiwr yn gwneud cais i weithio mewn gweithgaredd rheoledig

## Sefydlu Atyniad Garddwriaethol

- **Geirda Proffesiynol** – gan gyflogwr neu reolwr cyfredol neu flaenorol
- **Geirda Cymeriad** – gan berson annibynnol, uchel ei barch sy'n adnabod yr ymgeisydd yn dda.
- **Tystiolaeth o gymwysterau** ac ati.
- **Holiadur Iechyd Cyn-gyflogaeth** – O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae'n anghyfreithlon gofyn cwestiynau cyffredinol am iechyd cyn cynnig cyflogaeth unigol. Hyd yn oed os oes rhywfaint o fater penodol yn ymwneud â swydd, a allai gyfiawnhau'r cwestiwn, dylech barhau i ymdrin â'r pynciau hyn yn ofalus. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gwahardd cyflogwr rhag ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr am swyddi gael archwiliad meddygol neu lenwi holiadur iechyd cyn cael cynnig swydd.

- **Contract Cyflogaeth**

Rhaid ystyried egwyddorion sylfaenol cyfraith contract cyn-gyflogaeth. Mae bellach yn hawl diwrnod un i gyflogwr ddarparu **Datganiad Ysgrifenedig o Fanylion** i'w weithwyr. Mae hwn yn ofyniad statudol o dan **Adran 1 Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996**. Felly mae'n rhaid ystyried pa fath o **Contract Cyflogaeth** y byddwch chi'n ei gynnig. Mae yna nifer o opsiynau yn amrywio o, ond heb fod yn gyfyngedig i, Llawn Amser neu Ran-amser parhaol, Dim Oriau, Oriau Blynnyddol; Gweithwyr Tymor Penodol, gan gynnwys staff achlysurol a thymhorol. Gall contractau tymor penodol fod yn berthnasol i fusnesau garddwriaethol sydd angen gweithwyr tymhorol neu achlysurol i gynorthwyo gyda chynnydd dros dro yn y llwyth gwaith. Bydd gan yr holl staff a gyflogir ar contractau tymor penodol yr un hawliau ag aelodau staff parhaol mewn perthynas â (ond heb fod yn gyfyngedig i), cyfraddau tâl gan gynnwys goramser, oriau gwaith ac egwylliau, hawl i wyliau, cynlluniau tâl salwch cwmni, cynlluniau neu daliadau absenoldeb teulu uwch, mynediad at gynlluniau pensiwn, darparu hyfforddiant, dewis ar gyfer diswyddo, a defnyddio cyfleusterau ar y safle.

Bydd pob un o'r mathau o Contractau a grybwyllir uchod yn amlinellu gwahanol delerau cytundebol, yn amrywio o statudol i rai nad ydynt yn statudol a byddant hefyd yn cyfeirio at bolisiau penodol y mae'n rhaid iddynt fod ar waith i gefnogi'r cytundeb sy'n gyfreithiol rwymol.

- Bydd **hawliau statudol** yn cynnwys yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol; amddiffyniad rhag didyniadau anghyfreithlon o gyflogau; isafswm lefel statudol gwyliau â thâl; isafswm hyd statudol seibiannau gorffwys; i beidio â gweithio mwy na 48 awr yr wythnos ar gyfartaledd (neu optio allan o'r hawl hon os ydynt yn dewis); amddiffyniad rhag gwahaniaethu anghyfreithlon; amddiffyniad ar gyfer 'chwythu'r chwiban'; i beidio â chael eu trin yn llai ffafril os ydyn nhw'n gweithio'n rhan-amser. Gall hawliau cyflogaeth ychwanegol hefyd gynnwys Tâl Salwch Statudol; Tâl Mamolaeth / Tadolaeth / Mabwysiadu Statudol; Cyflog Rhiant a Rennir; Tâl Profedigaeth Rhiant.
- Mae'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol (NMW) yn berthnasol i bob gweithiwr ac fe'i telir ar gyfraddau gwahanol yn ôl oedran. Mae cyfradd ar wahân ar gyfer prentisiaid, ac mae Cyflog Byw Cenedlaethol (NLW) yn berthnasol i weithwyr 23 oed a hŷn. Mae cyfraddau cyfredol ac yn y dyfodol ar gyfer yr isafswm cyflog (sy'n cynrychioli cyflog gros) ar gael o'r ddolen ganlynol: <https://www.gov.uk/national-minimum-wage-rates>

O ganlyniad ac mewn ymateb i Adolygiad Taylor (2017), cyhoeddodd y Llywodraeth ddeddfwriaeth a gynigiwyd o fewn y Cynllun Gwaith Da (2018), a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2020. Mae'r Cynllun Gwaith Da (2018) 'y pecyn mwyaf o ddiwygiadau i'r gweithle ers dros 20 mlynedd' wedi ymrwymo i wella ansawdd gwaith yn y DU. Felly mae'n hanfodol bod cyflogwyr newydd yn ymwybodol o'u rhwymedigaethau i'w gweithwyr.

Wrth i'ch menter arddwriaethol dyfu, gall cynyddu nifer y bobl fod yn sbardun allweddol ar gyfer gweithredu **arferion Adnoddau Dynol strategol** mewn sefydliad. Gall cael polisiau a gweithdrefnau

Sefydlu Atyniad Garddwriaethol effeithiol ar waith helpu i gryfhau **diwylliant cwmnïau**, gwella **perfformiad a chynhyrchedd**, cael effaith gadarnhaol ar **lesiant** ac **amrywiaeth**, a hefyd cynorthwyo i **gynllunio olyniaeth** yn y dyfodol.

## Polisiâu a Gweithdrefnau Cwmni

Gellir ymgorffori **cyfres bwrpasol o bolisiâu AD** mewn **Llawlyfr Gweithwyr**, i weithredu fel ffynhonnell wybodaeth i'ch staff ac amlinellu'r hyn y gallant ei ddisgwyl gennych chi fel eu cyflogwr. Gallai cynnwys eich Llawlyfr gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i:

- **Croeso a Chyflwyniad** i'r Cwmni
- **Trosolwg ar Gontract Cyflogaeth**; Rolau swydd; Hawl i Weithio; Gwiriad meddygol; Cyfnodau Prawf
- **Ymsefydlu; Hyfforddiant a Datblygu Gyrfa; Gwerthusiadau**
- **Cyfrinachedd**; Gwrthdaro Buddiannau; Yn siarad ar ran y cwmni
- **Presenoldeb** ac Oriau Gwaith; Ar alwad; Polisi Absenoldeb Salwch
- **Tâl a Buddion**; Pensiwn; Goramser Awdurdodedig; Treth incwm; Treuliau
- **Polisi Gwrth-lwgrwobrwyo**
- **Gwyliau Blynnyddol ac amser i ffwrdd**; Gweithio amser byr a diswyddo dros dro; Amser i ffwrdd in Lieu; Apwyntiadau
- **Absenoldeb sy'n Gyfeillgar i Deuluoedd**; Amser i ffwrdd ar gyfer Dibynnyddion; Polisi Gweithio Hyblyg; Absenoldeb Tosturiol
- **Polisiâu Mamolaeth; Tadolaeth; Mabwysiadu; Rhiant a Rennir; Absenoldeb rhiant; Absenoldeb Profedigaeth Rhieni**
- **Cyfle Cyfartal a Gwerthfawrogi Amrywiaeth; Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth**; Datganiad y Gymraeg; **Urddas yn y Gwaith, Polisi Gwrth-Aflonyddu a Bwlio; Polisi Llesiant**
- **Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith**
- Polisiâu a Gweithdrefnau **Disgyblaeth, Gallu a Chwyn Gyflogaeth; Cod Arfer Acas; Polisi Chwythu'r Chwiban**
- **Diogelwch Gwybodaeth a Chyfrinachedd; Polisi Diogelu Data**; Polisi TG; Cofnodion Personol
- **Terfynu Cyflogaeth**; Ymddiswyddiad; Ymddeoliad; Diswyddo.

## Ystyriaeth Ariannol

Rhaid ystyried:

- Rhedeg **cyflogres**
- Cyfraniadau **Yswiriant Gwladol**
- Darparu **pensiwn gweithle**
- Cefnogi **gwyliau blynnyddol**
- **Dosbarthu gwisg**
- **Darparu offer a chyfarpar**
- **Budd-daliadau gweithwyr**
- Sicrhau **Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwyr** digonol.



### Rheoli staff yn barhaus

Gall llwyddiant cwmni ddibynnu ar ddod o hyd i'r staff cywir a'u cadw. Bydd annog **Hyfforddiant a Datblygiad** nid yn unig yn helpu staff i gynyddu eu sgiliau a'u gwybodaeth, ond gall hefyd ysgogi eich gweithlu i ddiwallu anghenion busnes.

Dylid hefyd ystyried **Rheoli Perfformiad** – gan amlinellu sut y byddwch yn cynnal ac yn gwella perfformiad gweithwyr yn barhaus ac yn mynd i'r afael â materion pe byddent yn codi.

### Cymorth AD Arbenigol

Os nad oes gennych swyddogaeth AD yn fewnol i reoli'r agweddau AD allweddol a nodwyd uchod, fe allech chi ystyried **rhoi'ch gofynion AD ar gontract allanol i arbenigwyr cymwys.**



Mae Cynaliadwyedd Amgylcheddol yn dod yn fwy a mwy pwysig i ddefnyddwyr wrth benderfynu ble maen nhw'n gwario eu harian. Wrth i effeithiau newid yn yr hinsawdd ddod i'r amlwg dros y blynyddoedd i ddod, dim ond cynyddu y bydd yr agwedd hon ar ymddygiad defnyddwyr. Bydd y busnesau a all ddangos yn glir eu bod yn gwerthfawrogi cynaliadwyedd yn elwa o nifer ychwanegol o ymwelwyr. Mae'r agweddau 'Gwyrdd' hyn ar eich busnes yn wahaniaethydd gwych ac felly gellir eu defnyddio yn eich deunyddiau marchnata hefyd. Mae'n bwysig cofio nad oes rhaid i reoli busnes mewn ffordd gynaliadwy wrthdaro â phroffidioldeb y busnes. Mewn gwirionedd, gall ffyrdd newydd o weithio a gwelliannau technolegol leihau eich costau a gwella'ch proffidioldeb.

### Ynni

O ble y daw'ch ynni? Ystyriwch newid i gyflenwr ynni adnewyddadwy. Trwy ddewis ynni o ffynhonnell adnewyddadwy, byddwch yn lleihau eich ôl troed carbon. Efallai y bydd angen i rai busnesau weithredu oddi ar y grid oherwydd eu natur anghysbell, efallai y gellid defnyddio pŵer solar yn lle generadur disel?

Faint o ynni ydych chi'n ei ddefnyddio? Gall newidiadau syml fel newid i oleuadau LED wneud gwahaniaeth amlwg. Mae sicrhau bod offer yn cael eu diffodd pan nad ydyn nhw'n cael eu defnyddio hefyd yn strategaeth dda i'ch helpu chi i gyflawni'ch nodau cynaliadwyedd.

Mae gwresogi ac oeri adeiladau hefyd yn defnyddio cryn dipyn o ynni. A yw'ch adeiladau wedi'u hinswleiddio'n dda? Trwy inswleiddio a dileu drafftiau, gellir sicrhau gostyngiadau sylweddol mewn gofynion ynni. Yn yr haf, efallai y bydd angen oeri. Trwy ystyried lleoliad adeilad newydd, lleoliadau ffenestri a thrwy ddefnyddio neu greu cysgod, gallwch unwaith eto leihau'r angen am aerdymheru sy'n llyncu ynni.

### Gwastraff

Mae'n ddefnyddiol dilyn y mantra **Arbed, Ailddefnyddio, Ailgylchu**.

**Arbed:** Yn well nag ailgylchu yw peidio creu gwastraff yn y lle cyntaf. A oes unrhyw agweddau o'ch busnes lle mae gwastraff yn cael ei wneud trwy greu rhywbeth nad oes ei angen efallai? Er enghraifft, a ellid darparu tocynnau yn electronig, yn hytrach na'u hargraffu a'u postio allan?

**Ailddefnyddio:** A ellir golchi ac ailddefnyddio eitemau yn hytrach na'u taflu? Enghraifft yma fyddai, yn hytrach na gweini lluniaeth gan ddefnyddio plastigau un defnydd, gallai newid i opsiwn arall leihau faint o wastraff y mae eich busnes yn ei gynhyrchu. Mae'n debygol y bydd goblygiadau cost i ddechrau ond yn y tymor hir dylai'r arbedion gynyddu a byddwch yn lleihau faint o wastraff rydych chi'n ei gynhyrchu hefyd.

Sefydlu Atyniad Garddwriaethol

**Ailgylchu:** Bydd elfen o wastraff bob amser gydag unrhyw fusnes neu weithrediad. Sicrhewch fod gennych gyfleusterau ailgylchu addas ar y safle fel y gellir rhannu gwastraff. Rhowch wybod i'ch cwsmeriaid a'ch staff amdanynt ac annog eu defnyddio.

## Defnydd a gwastraff dŵr

Mae yna sawl ffordd y gallwch chi leihau faint o ddŵr rydych chi'n ei ddefnyddio a'r swm y mae angen ei brosesu a'i lanhau wedyn.

Fflysio'r toiled yw un o'r defnyddwyr dŵr mwyaf mewn cartref ac yn y mwyafrif o fusnesau. Mae sestonau modern wedi lleihau'r swm a ddefnyddir ar gyfer pob fflysh ond os oes gennych seston hŷn, gallwch roi potel o ddŵr i mewn yno neu brynu bag Hippo i leihau faint sy'n cael ei storio yn y seston ar ôl pob fflysh.

A oes gennych chi'r gallu i gynaeafu dŵr glaw o'ch to? Mae'r dŵr hwn yn wych ar gyfer dyfrio'r ardd gan nad yw'n cynnwys y cemegau a roddir yn ein dŵr tap i'w gadw'n lân. Gellir defnyddio'r dŵr hwn hefyd i fflysio toiledau yn yr un modd ag unrhyw 'ddŵr llwyd'. Mae dŵr llwyd yn ddŵr sydd wedi'i ddefnyddio ond sy'n dal i fod yn ddigon glân i'w ddefnyddio eto ar gyfer rhai swyddogaethau. Gellir casglu hwn o sinciau, cawodydd a baddonau, yna ei ddefnyddio i fflysio toiledau. Gall system dŵr llwyd fod yn eithaf drud i'w gosod yn ôl-weithredol ond mae'n beth gwych i'w ystyried ar gyfer adeiladau newydd.

Rhaid prosesu unrhyw ddŵr gwastraff terfynol, e.e., ar ôl i'r toiled gael ei fflysio gan ddefnyddio gwaith trin o ansawdd uchel os nad ydych wedi'ch cysylltu â'r system garthffosiaeth. Mae hyn yn atal llygryddion diangen rhag gollwng yn ôl i'r lefel trwythiad.

## Trafnidiaeth

Mae trafndiaeth yn cael effaith fawr ar iechyd yr amgylchedd. Bydd newidiadau bach a wneir yn gwella cynaliadwyedd eich busnes.

A allwch chi sefydlu'ch safle yn agos at gysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus? A allech chi gynnig gwasanaeth gwennol i fannau poblogaidd i dwristiaid i leihau'r angen i nifer o gwsmeriaid yrru i'ch safle? A all eich staff rannu lifft ar gyfer cymudo? A fyddai newid i gerbydau trydan yn ymarferol i'ch busnes?

## Cadwyn gyflenwi

Pwy sy'n cyflenwi'r busnes â'r adnoddau sydd eu hangen arno i weithredu? A ellid dod o hyd i'r adnoddau hyn yn lleol? A oes gan y cwmnïau rydych chi'n gweithio gyda nhw yr un nodau cynaliadwyedd â chi? A allwch chi weithio gyda'ch gilydd i leihau'r effaith rydych chi'n ei chael ar yr amgylchedd? A yw'r planhigion rydych chi'n eu cyrchu yn frodorol neu a ydyn nhw'n rhydd rhag GM (Wedi'i Addasu'n Enetig)? A ydych chi'n gwarchod ac yn adfywio rhywogaethau brodorol?

## Bioamrywiaeth a gwrthbwysu carbon



### Sefydlu Atyniad Garddwriaethol

A ellir caniatáu dad-ddofi rhan o'r tir i gynhyrchu gwelliannau mawr eu hangen mewn bioamrywiaeth? Bydd cyflwyno blodau gwyllt brodorol neu ddefnyddio gwrychoedd naturiol yn lle ffensio yn helpu pryfed, adar a mamaliaid bach i ffynnu.

Bydd creu cynefinoedd neu gartrefi ar gyfer y natur o'n cwmpas hefyd yn gwella bioamrywiaeth. A allwch chi osod blychau adar neu ystlumod? Gall gadael pentyrrau coed ddenu mamaliaid bach fel draenogod a chynhyrchu pryfed trwy gydol y flwyddyn gan ddarparu ffynhonnell fwyd ar gyfer ystod eang o fywyd gwyllt.

Gan ddefnyddio adnoddau ar-lein, gallwch amcangyfrif cost carbon eich busnes ac yna ceisio gwrthbwysu'r rhain trwy raglenni gwrthbwysu fel plannu coed. A oes unrhyw le ar y safle lle gellir plannu coed i wneud iawn am unrhyw garbon a gynhyrchir gan y fenter? Bydd coed aeddfed hefyd yn cynhyrchu cysgod a all atal llifogydd yn y tymor hwy.

### Cymorth Cynaliadwyedd Arbenigol

Os ydych chi'n awyddus i ddeall sut y gallwch chi wneud i'ch busnes weithredu'n fwy cynaliadwy, argymhellir eich bod chi'n ceisio cyngor proffesiynol.